

Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi **Hydref a Thachwedd 2017**

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus.

1 Hydref

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

8 Hydref

Aberduar	10.00 y bore	Parchg Wynn Vittle
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

15 Hydref

Aberduar	10.00 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	
Seion	3.00 y prynhawn	**yn lle 22 Hydref**
Noddfa	5.00 yr hwyr	Cwrdd Diolchgarwch yr Ysgol Sul

22 Hydref

Aberduar	10.00 y bore	Mrs Helen Jones
Bethel	10.15 y bore	
Seion	oedfa wedi symud!	i **15 Hydref am 3**

Oedfa Ennyd Gobaith - gweler yr hysbyseb ar y tudalen cefn.

29 Hydref

Caersalem	10.30 y bore	Oedfa'r Cylch

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

5 Tachwedd		
Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun
12 Tachwedd		
Aberduar	9.30 y bore	Mrs Dwynwen Teifi (Oedfa'r Gofeb am 11)
Bethel	10.15 y bore	Cymun dan ofal y Parchg Ddr Densil Morgan
19 Tachwedd		
Noddfa	9.30 y bore	
Aberduar	11.00 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	
26 Tachwedd		
Aberduar	10.00 y bore	Mr Lyndon Lloyd
Bethel	10.15 y bore	
Seion	1.30 y prynhawn	
Noddfa	5.00 yr hwyr	Mrs Delyth Morgans Phillips
Rhaghysbys:		
3 Rhagfyr		
Aberduar	*10.00 y bore*	*Cymun*
Caersalem	*2.00 y prynhawn*	*Cymun*
Noddfa	*3.30 y prynhawn*	*Cymun*

Oedfa'r Eisteddfod

Daeth tyrfa luosog iawn ynghyd i Noddfa ar gyfer Oedfa Eisteddfod Pantyfedwen eleni, blwyddyn dathlu'r 50. Llinos oedd yn llywyddu, Ann wrth yr organ, Delyth a Densil yn darllen a gweddïo, a Ffion a Lowri Elen yn rhoi emynau. Cafwyd deuawd swynol gan Elan a Sioned gyda Janet yn cyfeilio. Y Parchedig John Talfryn Jones, Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru oedd yn cyhoeddi'r Gair, gydag arddeliad ac yn gofiadwy iawn. Casglwyd at Gymorth Cristnogol. Diolchodd Alun i bawb am eu cyfraniadau, ac i'r rhai fu'n cymryd rhan. Cafwyd canu gorfoleddus o'r emyn dôn Pantyfedwen i orffen gyda phawb wrth droi tuag adre yn datgan mai da oedd cael dod at ein gilydd i addoli mewn oedfa arbennig iawn. *(Diolch Janet!)*

Llongyfarchiadau i blant a phobl ifainc yr eglwysi ar eu llwyddiannau mewn amrywiol feysydd, a'r clod i Dduw.

Dathliadau Aberduar 275

Cafwyd amser hapus iawn yng nghapel Aberduar Ddydd Sul 17 o Fedi 2017 gan ein bod wedi bod yn dathlu 275 o flynyddoedd ers corffoli yr eglwys gyda'r capel yn llawn yn y prynhawn a chwech yr hwyr. Cynhaliwyd oedfa'r dathlu am ddau y prynhawn gyda'r gweinidog yn llywyddu. Cyflwynwyd y rhannau arweiniol gan Dewi Davies Glanafon yn darllen o'r ysgrythur a gweddi gan Hannilia Court. Ar ôl i Jill groesawu pawb, bu yn sôn am gychwyn eglwys Aberduar ac yna mynd ymlaen i gyflwyno pump o weinidogion sydd a chysylltiad agos iawn ag Aberduar, y Parchedigion Eirian Lewis, Aled Davies, Owain Llyr Evans, Olaf Davies a Wynn Vittle. Bu'r pump yn sôn am ei cysylltiadau ag Aberduar ac am amserau llon a lleddf. Fe wnaeth y gynulleidfa fwynhau eu sylwadau yn fawr iawn, awr a hanner i'w gofio am byth. Rhwng y ddwy oedfa cafwyd te ardderchog wedi ei baratoi yn y festri gan y chwiorydd ac hefyd bu Dewi Davies Glynteg yn arddangos lluniau o ddigwyddiadau yn Aberduar dros y pedwar ugain blynedd diwethaf. Cafwyd casgliad tuag at Cymorth Cristnogol yn ystod yr oedfa. Ar ddiwedd yr oedfa torrwyd cacen y dathlu (rhodd gan Vicky Pistyllgwyn o'i gwaith) gan Eluned Lewis, aelod hyna Aberduar.

Am chwech yr hwyr, cynhaliwyd Cymanfa Ganu hwyliog ac ysbrydoledig dros ben. Diolch i Emlyn (arwain), Rhiannon (cyfeilio) a Cerys (llywyddu), Lleisiau'r Werin a Chôr Cwmann dan arweiniad Elonwy Davies, Manon Mai, plant yr Ysgol Gynradd (eitemau) ac i'r gynulleidfa luosog am wneud y noson yn gymaint llwyddiant. Edrychwn ymlaen i glywed y gymanfa ar Radio Cymru.

(Diolch i Dewi Glynteg am yr adroddiad – ac rwy'n ychwanegu diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y diwrnod.)

I'r dyddiadur:

Hydref

5 Hydref: Diolchgarwch Seion am 7. Pregethir gan y Parchg Dilwyn Jones.

10 Hydref: Astudiaeth dan ofal y Parchg Ddr Densil Morgan, am 7 yn y Gilfach 'Myfi yw Bara'r Bywyd' meddai Iesu. Ioan 6: 22 - 59.

11 Hydref: Cylch Darllen - cwrdd yn festri Noddfa am 10.30 - Damhegion Iesu

12 Hydref: Diolchgarwch Caersalem am 7. Pregethir gan y Parchg Delyth Wilson.

18 Hydref: Diolchgarwch Aberduar: prynhawn am 2 a nos am 7. Pre-

gethir gan y Parchg Heini Jones, a disgwyliwn i blant yr ysgol gynradd ymuno â ni erbyn oedfa'r prynhawn.
22 Hydref: Ennyd Gobaith - eglwys San Pedr, Llanbed, am 2
24 Hydref: Astudiaeth dan ofal y Parchg Ddr Densil Morgan, am 7 yn y Gilfach 'Myfi yw Goleuni'r Byd' meddai Iesu. Ioan 8: 12 - 20.

Tachwedd

6 Tachwedd: Oedfa Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd, yn Festri Aberduar, am 1.30.
8 Tachwedd: Cylch Darllen - cwrdd yn festri Noddfa am 10.30 - Damhegion Iesu
14Tachwedd: Astudiaeth dan ofal y Parchg Ddr Densil Morgan, am 7 yn y Gilfach 'Myfi yw Drws y Defaid a'r Bugail Da' meddai Iesu. Ioan 10: 1 - 21.
28 Tachwedd: Astudiaeth dan ofal y Parchg Ddr Densil Morgan, am 7 yn y Gilfach 'Myfi yw'r Atgyfodiad a'r Bywyd' meddai Iesu. Ioan 11: 1 - 27.

Rhagfyr

12 Rhagfyr: Astudiaeth dan ofal y Parchg Ddr Densil Morgan, am 7 yn y Gilfach 'Myfi yw'r Ffordd y Gwirionedd a'r Bywyd' meddai Iesu. Ioan 14: 1 - 31.
13 Rhagfyr: Cylch Darllen - cwrdd yn festri Noddfa am 10.30 - Damhegion Iesu
17 Rhagfyr: yr hwyr, Cymanfa Garolau Brynhafod: amser i'w hysbysu.

Ennyd Gobaith: Cynhelir oedfa Ennyd Gobaith (Pause for Hope) yn ddwy-ieithog yn Eglwys San Pedr, Llambed, ar Sul 22 Hydref am 2 o'r gloch. Trefnwyd gyda chymorth yr eglwysi lleol, er mwyn estyn cysur a gobaith i bawb sydd wedi cael eu cyffwrdd gan y clefyd Cancr. Cymerir rhan gan Gôr Ysgol Bro Pedr, y delynores Georgina Cornock-Evans ac eraill, a bydd paned a chacen wedyn yn Neuadd yr Eglwys, a chyfle i sgwrsio ac i holi cynrychiolwyr grwpiau lleol ac elusennau cancr. Gwerthfawrogir eich cefnogaeth yn fawr iawn. Croeso!

Gair i'ch atgoffa:
Gallwch gysylltu â mi ar ffôn y tŷ (01570 423442), neu hyd yn oed os wyf oddi cartref, drwy neges destun neu alwad ffôn i'r ffôn symudol (07811 736522) neu ar e-bost (jilltomos@tesco.net).